**Mae Casgliad y Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, (1947-61/63) a grëwyd gan Age Cymru Dyfed, wedi'i wneud yn bosib diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.**

Dyddiad y cyfweliad: Gorffennaf 2025 (ymweliad olaf)

Lleoliad: Aberystwyth

Cyfwelydd: Neil Davies

**Ernie Hughes,**

**Llu Awyr Brenhinol,**

**1952 I 1957,**

**Aberystwyth, Ceredigion**



*"Pan troias yn ddeunaw oed yn mis Ionawr 1952, cefais fy ngalw lan ar gyfer Gwasanaeth Cenedlaethol fel pawb arall"*

**Methodoleg**: Casglwyd stori Ernie am ei Wasanaeth Cenedlaethol trwy ymweliadiau a cyfweliadau yn cartref e yn Ngheredigion. Roedd Ernie yn 91 oed ar adeg yr ymweliad olaf.

Mae'r awdur wedi groeswirio atgofion Ernie gyda ffynonellau gwybodaeth ychwanegol er mwyn cael darlun gwell o profiad Ernie yn yr Llu awyr brenhinol.

Aeth y cyfweliadiau gyda Ernie cael eu recordio a gallwch chi wylio nhw ar-lein yng nghasgliad Ernie Hughes, yng nghasgliad y Gwasanaeth Cenedlaethol yn Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru.

Mae'r awdur wedi crynhoi rhywfaint o'r sgwrs o'r cyfweliad, lle mae Ernie yn cael ei ddyfynnu yn y naratif hwn.

## **Bywyd cyn gwasanaeth cenedlaethol.**

Ganwyd Ernie ar 22ain o Rhagfyr 1933 ym mhentref bach New Row, ger Pont-rhyd-y-groes, Ceredigion. Roedd e’n byw mewn lleoliad gwledig tan 1941, pan roedd orfod y teulu symud i Aberystwyth. Penderfynodd eu Landlord roi cartref i faciwîs, wrth i’r Luftwaffe barhau â’i ymosodiad bomio yn erbyn y dinasoedd mawr. Symudodd y teulu ychydig filltiroedd i’r gorllewin, i dref arfordirol Aberystwyth, a dechreuodd Ernie ysgol yn Ysgol y Bechgyn ar ffordd Alexandra. Yn anffodus, bu farw tad Ernie ym 1947, yn gadw mam Ernie yn weddw.

Ar ôl gadael yr ysgol, hyfforddodd fel mecanig mewn garej leol yn Aberystwyth.

Yn y 1950au, ar ôl cyrraedd deunaw oed, roedd pob dyn ifanc a oedd yn dinesdydd Prydeinig yn wynebu gorfodaeth filwrol i wasanaethu yn y fyddin.

## **Gwasanaeth Cenhedlaethol**

Derbyniodd Ernie ei orchymyn i fynd i'r Ganolfan Gwasanaeth Cenedlaethol yn Abertawe ym mis Ionawr 1952. Traddodd y postmon lythyr, gyda'r llythrennau 'OHMS' wedi'u hysgrifennu mewn inc ddu ar y clawr.

Ar ôl mynychu'r ganolfan, byddai'r 'ymgeiswyr' yn cael prawf meddygol a phrawf gallu. Roedd Ernie yn wynebu cyfweliad gydag aelod o'r Fyddin, y Llynges, neu'r RAF. Y syniad oedd bydd hwn yn helpu’r awdurdodau benderfynu ar y ffordd orau o gyflogi'r dyn ifanc oedd yn eistedd o’u blaenau. Yn ddelfrydol, roeddent yn cynnig dewis i’r ymgeiswyr pa gangen i ymuno, ond nid oedd hyn bosib bob amser.

Gwnaeth Ernie benderfyniad mawr. Yn hytrach na chwblhau'r cyfnod gorfodaeth ddwy flynedd gofynnol, roedd am roi cynnig ar yrfa yn yr RAF. Gwnaeth yr gwahanol grefftau a gynigiwyd yr RAF iddo yn dylanwadu ar ei penderfyniad. Roedd Ernie eisiau bod yn Ddiffoddwr Tân Damweiniau, ond er mwyn gwneud hynny, roedd yr RAF yn wneud yn ofynnol iddo gofrestru am fwy na chyfnod y gorfodaeth.

*“Llofnodais am bum mlynedd a phedair blynedd wrth gefn. Ar ôl hynny es i adref. Cefais lythyr wedyn i fynd i RAF Bridgnorth yn Swydd Amwythig.”*

**RAF Bridgnorth – Hyfforddiant sylfaenol**

Roedd yr orsaf yn dyddio'n ôl i ddyddiau cynnar yr Ail Ryfel Byd ac roedd ganddi lawer o brofiad o hyfforddi recriwtiad newydd i'r RAF. Pan gyrhaeddodd Ernie ym 1953, roedd yr orsaf yn gartref i ysgol hyfforddi Recriwtiaid rhif 7. Roedd cwrs hyfforddi sylfaenol yr RAF ar gyfer Milwyr Cenedlaethol yn parhau am wyth wythnos.

Mae Ernie yn cofio bod y gwersyll hyfforddi wedi ennill llysenw…

*"RAF Bridgnorth. Y sôn oedd ei fod e fel arfer yn cael ei alw'n Stalag Luft tri. Roedd yn wersyll uffern. Llym iawn yno. Jôc oedd hynny gyda'r bois."*

Fodd bynnag, efallai nad oedd y gwersyll yn byw hyd at ei enw mor ofnadwy, gan fod atgofion Ernie o'r gwersyll yn bennaf am ba mor braf oedd y dref a'r pasys 48 awr:

*"Roeddwn i'n arfer dod adref gyda phasys 48 awr ar yr hen reilffordd stêm."*

Mae Ernie yn cofio'r cod gwisg:

*"Glas gweithio ar gyfer y dydd a glas gorau ar gyfer gorymdeithiau. Capiau chwilota (ar y dechrau) yna capiau pig, cyn iddyn nhw gyflwyno'r beret."*

Roedd llymder cyffredinol ynglŷn â chyfundrefn y gwersyll:

*"Llym iawn mewn gwirionedd, oherwydd roedd gennym ni 'DI's', Hyfforddwyr Drill ac roedden nhw'n ofnadwy. Roedden nhw'n gwthio chi i'r eithaf. Roedden ni'n casáu'r DIs oherwydd eu bod nhw mor greulon i ni."*

Gwnaeth y trefn llym yn cymryd ei doll ar rai milwyr a oedd wedi cofrestru:

*"Roedd yna lawer o straeon am bobl yn gadael neu'n diflannu, y math yna o beth, doedden nhw ddim yn gallu wneud. Dim ond deunaw oed oedden ni. Rwy'n cofio un Corporol yn penodol, oedd e'n Geordie. Roedd e'n ddyn cas iawn. Ond fe weithiodd allan yn iawn (i mi). Fe wnes i barhau gydag e."*

Er gwaethaf llymder yr hyfforddwyr, mae Ernie yn cofio paradocs rhyfedd a ddigwyddodd:

*"…ac eto ar ddiwedd wyth wythnos o hyfforddiant, roedden ni'n dod at ein gilydd i brynu anrhegion iddyn nhw (y DIs)."*

**Hyfforddiant Crefft**

*"Ar ôl wyth wythnos o 'square bashing', es i i'r ysgol dân yn Sutton-on-Hull, yn nwyrain Swydd Efrog. (Roedd yn) Diffoddwr Tân y Maes Awyr. Gwnes i gwrs dau fis yno ac yna daeth fy swydd gyntaf i mewn. Rhoddon nhw swydd i mi yn RAF Llandwrog. Maes awyr Caernarfon ydy o nawr."*

Fel newydd-ddyfodiad, roedd Ernie gyda llawer I ddysgu, wrth i Wasanaeth Tân yr RAF geisio datblygu'r recriwtiaid newydd mewn i ddiffoddwyr tân cymwys.


*"Dysgu am bwysau atmosfferig a phethau fel hynny, gyda'r pympiau dŵr. Gyrru. Roedden ni'n defnyddio tendrau ewyn ar gyfer tanau awyrennau wedi damwain. Rydych chi'n defnyddio cymysgedd o ewyn a dŵr. Wrth gwrs, roedd gennych chi'r siwtiau achub ymlaen. Roedd y*

*Corporal oedd yn gyfrifol am y criw tân mewn Land Rover ac roedd y criw llawn yn dilyn tu ôl yn y tendr Rolls Royce."*

Cafodd y Diffoddwyr Tân amrywiaeth o tasgs ac ymarferion:

*"Roedd ganddyn nhw hen awyrennau roedden nhw'n defnyddio i'w llosgi i'w wneud yr ymarferion yn realistig."*

**RAF Llandwrog**



No 30

ROYAL AIR FORCE

No. 4090767 Rank LAC

Name HUGHES.

Serial No. of Form 1250 810354

Unit 277 M.U.

Station RAF LLANDWROG

Has permission to be absent from his quarters during off-duty hours with/without permission to wear plain clothes.

Signed ... Rank ...

STATION HEADQUARTERS 1 FEB 1953 R.A.F. LLANDWROG

(Unit stamp and date issued.)

H44996 Wt.22348-P.1116 193M(18) 9/51 Gp.840 F. & C.

Tocyn swyddogol gyda'r dyddiad 1 af o Chwefror 1953 cafodd Ernie ei rhoi yn RAF Llandwrog. Mae'n nodi'n gywir ddyddiad ei gyfnod yng Ngogledd Cymru.

Roedd y trwyddedau hyn yn hanfodol i filwyr cenedlaethol adael y gwersyll, er mwyn osgoi torri'r rheol 'Absennol Heb Ganiatâd'..


Roedd Ernie yn falch o'i bostiad cyntaf:

*"Roedd yn wych. Gallwn ddod adref ar benwythnosau o Gaernarfon."*

Fodd bynnag, roedd adleisiau'r Ail Ryfel Byd dal yn aros ac roedd y maes awyr bach yng Ngogledd Cymru yn chwarae ei ran yn adferiad y wlad o'r gwrthdaro dinistriol. Roedd Diffoddwyr Tân yr orsaf yn ymwybodol iawn o'r perygl:

"*Pan ddaeth yr ail ryfel byd i ben, fe ddaethon nhw o hyd i fomiau nwy nerf ym Munich. Roedden nhw'n fomiau pum mil o bunnoedd, ac roedden nhw'n cynnwys nwy nerf. Cawsont eu cludo i'r wlad hon a'u cadw mewn hangarau yn RAF Llandwrog. Cafodd hynny i gyd ei waredu wedyn, pan es i Kenya. Arhosais am ddeuddeg mis. Y peth nesaf, mae postiad yn dod i mewn i fynd i'r dwyrain canol."*

Mae cerdyn cofrestru Gwasanaeth Cenedlaethol Ernie yn dangos y stamp swyddogol o Ganolfan Dosbarthu Personel yr RAF yn Lytham ar 18fed o Medi 1953. Mae hyn yn cyfateb ag atgofion Ernie am adrodd i Lytham ar gyfer ei bostiad.


KEEP THIS CARD SAFELY

NATIONAL SERVICE ACTS - Certificate of Registration.

Occ. Classn. No. 194-21 Registration No. 9491

Holder's Name Ernest William HUGHES

Home Address 17, Heol-y-Garth.

ABERYSTWYTH

Date of Birth 22-12-/1933

Holder's Signature

READ THE OTHER SIDE

*I removed on ........(date) to the following address :—

3. FLIGHT

B. SQUADRON

Nearest Railway Station :—

*I have changed my name to

18 SEP 1953

NO. 5 P.D.C.

Signature

R.A.F. LYTHAM

*Complete as necessary.

(S.3739) M.21114/3193 210M 11/50 A.T.&S.Ltd. 17/57/3.

Cafodd pob Milwr Cenedlaethol cerdyn cofrestru swyddogol.

*"Cawsom ein hanfon i fyny i Lytham St Annes yn Swydd Gaerhirfryn i gael ein holl git PDC, cit tramor."*

"*Gwisg KD (dril Khaki), siorts, hosanau, fersiwn haf, y math yna o bethe. Wnaethon ni roi ein holl 'wisgoedd glas' i ffwrdd ac nid welais i nhw tan nes i ddod adref ym 1956."*

Roedd Ernie wedi cael ei bostio i reolaeth RAF y Dwyrain Canol, a oedd yn gyfrifol am weithrediadau ar draws y rhanbarth. Gallodd gael ei bostio i un o sawl gwlad, gan gynnwys yr Aifft, Swdan, Kenya a draw i Wlad Iorddonen.

**Teithiau dramor**

Dechreuodd taith dramor Ernie o faes awyr yn Surrey, de Lloegr. Dyma oedd maes awyr Black Bushe, gorsaf RAF wedi'i lleoli yn Hampshire, ger tref Camberley, Surrey. Yn y 1950au roedd yn ganolfan drafnidiaeth brysur, a elwid yn ail faes awyr Llundain.

*"Yna, daethon I ben ym maes awyr Black Bushe yn Hampshire. Hedfanon ni allan wedyn i'r dwyrain canol. Trwy Ffrainc, Malta, Libya a diweddu yn yr Aifft. Doedden nhw ddim eisiau ni fod yno, felly cefais fy anfon i Aden wedyn. Fe wnaethon ni newid i'n KDs (khaki's) ym Malta. Cymerodd amser hir."*

Wedi'i leoli yng Ngwlff Persia, sy'n strategol bwysig, roedd Porthladd Aden yn ased pwysig ar y pryd ac yn ddibyniaeth goron Prydain. Roedd yr RAF yn gweithredu gorsaf fawr, RAF Khormaskar. Treuliodd Ernie ddau fis yn Aden.

*"Roedd Aden yn cael eu galw 'Steamer Point'. Mae Steamer Point yn ganolfan lanio i bob llong sy'n mynd i'r dwyrain pell, ar gyfer ail-lenwi tanwydd a phopeth. Mae maes awyr Aden yn rhan o Steamer Point. Felly roedd yna dipyn o weithredu milwrol yn digwydd yno. Y prif faes awyr oedd RAF Khormaskar."*

Cafodd Ernie a'i ffrindiau amser i ymlacio ond arweiniodd yr amser hamdden hwn at rywfaint o drafferth iddo…

*"Y peth mawr oedd mynd lawr i'r Lido. Dwi'n cofio ges i llosg haul pan es i am y tro gyntaf a chefais fy rhoi ar gyhuddiad am anaf hunan-achosedig. Felly wnaeth hynny ddim mynd lawr yn dda!"*

Roedd gofyn i'r awyrenwyr gyflawni dyletswyddau penodol, tra roedden nhw'n aros am orchmynion.

"*Roeddech chi'n gweithio drwy'r amser yno ar y maes awyr. Roedd llawer o symudiadau awyrennau'n digwydd. Awyrennau'n glanio yn Aden oherwydd nad oedden nhw'n hedfan y hyd mae nhw nawr. Roedden nhw i gyd yn awyrennau injan piston. Doedd jetiau ddim wedi dod i mewn bryd hynny. (Airliners)"*

Gwnaeth y personel lluoedd Prydain a oedd wedi'u lleoli yn Aden ddefnydd da o'r marchnadoedd a phrynu eitemau a oedd llawer yn drutach yn ôl yn y DU. Manteisiodd Ernie ar y cyfle i brynu anrheg i'w fam:

*"Dwi'n cofio prynu oriawr aur iddi. Yn y dyddiau hynny, roedd Aden yn borthladd di-doll ac roedd popeth yn rhad iawn. Felly, roedd gyd ni awyrenwyr yn brynu ein gemwaith yno. Dyna pam prynais i un i mam.*"



Milwyr Prydeinig yn siopa am nwyddau di-doll yn Aden. Tynnwyd y llun hon gan yr awyrennwr RAF Ivor Thomas, a oedd yn Filwr Cenedlaethol yn Aden ar y pryd.

*"Roeddwn i yno am tua phythefnos i dair wythnos ac yna daeth neges i mewn. Roedden nhw eisiau i ni fod yn Nghenia. Roedd trafferthion wedi dechrau gyda'r ymgyrch Mau Mau. Felly, fe wnaethon ni lanio ym Mombasa ac aethon ni ar y trên, yna i fyny i Nairobi ac yna'r brif orsaf, RAF Eastleigh."*

Ar ôl taith hir, cyrhaeddodd Ernie gyrchfan a ddaeth yn gartref iddo am y dyfodol rhagweladwy. Dyma oedd RAF Eastleigh, wedi'i lleoli ym maestrefi'r brifddinas Nairobi.

**<u>Cenia</u>**

Roedd presenoldeb yr RAF yn Eastleigh yng Nghenia yn dyddio'n ôl i 1929, pan sefydlodd sgwadron o awyrennau rhagchwilio 'Fairley' ganolfan weithredu. Ar ôl bod yn faes awyr gweithredol yn ystod yr Ail Ryfel Byd, pan gyrhaeddodd Ernie ddiwedd 1953, roedd yr orsaf yn gartref i bencadlys RAF Dwyrain Affrica, sgwadron 49 yn hedfan y bomiwr 'Avro Lincoln', ac awyren hedfan 1340. Roedd 1340 yn awyren a ffurfiwyd yn arbennig o ddeuddeg awyren fomio ymladd 11b Harvard dwy sedd. Ei phrif dasg oedd cefnogi unedau Byddin Prydain a oedd yn gweithredu yn erbyn gangiau didostur y Mau Mau.

O dan awdurdod coron Prydain, roedd Cenia wedi bod mewn cythrwfl am sawl blwyddyn yn ystod dechrau'r 1950au achos gwrthryfel dan arweiniad llwyth y Kikuyu (Mau Mau) yn erbyn rheolaeth Prydain. Roedd unedau troedfilwyr Byddin Prydain yn ymwneud fwy a fwy o gwrthdaro treisgar â gangiau mawr o ymgyrchwyr Mau Mau. Roedd patrolau Byddin Prydain yn rhan o ymgyrchoedd i hela a dal neu ddileu gwrthryfelwyr, a oedd yn achosi erchyllterau i bobl leol a oedd yn cael eu hamau o gefnogi rheolaeth Brydeinig.

Roedd yn waith peryglus i'r troed milwyr ac roedd milwyr Harvard o hediad 1340 yn brysur yn ymateb i adroddiadau am weithgarwch a chrynodiadau Mau Mau mewn lleoliadau penodol. Wedi'i gyfarparu â hyd at wyth bom darnio a gwn peiriant .303, roedd platfform Harvard yn arf pwerus. Bydd Ernie yn dod yn gyfarwydd iawn â'r awyrennau ac yn profi hediadau dros y tir llwyn a'r prysgwydd:

*“Roedd RAF Eastleigh yn Nairobi, a oedd yn rhannu (y rhedfa) â maes awyr Nairobi.”*

Mae'n pwysig ar hyn o bryd i gofio bod Ernie wedi cael ei fagu gan ei fam, a oedd yn rhiant sengl. Mwynhaodd berthynas agos â hi ac nid bydd nhw’n gweld ei’n gilydd eto am nifer o flynyddoedd. Roedd hyn yn bryder iddo ef a'i fam:

*“Roedd fy mam ar phen ei hun. Roeddwn i'n ei cholli am bedair blynedd oherwydd na allech chi ddod adref. Dyddiau hynny, roedd yn arfer gymryd 24 awr i chi hedfan (gatref).”*

Cysylltodd mam a mab drwy'r post rhyngwladol:

*“Roedd hi arfer yn anfon melysion a siocledi a phethau fel 'na ataf.”*



Mae Ernie a'i ffrind Mervyn yn eistedd ar grisiau lori dân yn darllen y Cambrian News, anfonodd Mam Ernie i Cenia. Y Cambrian News yw papur lleol Aberystwyth ac mae'n parhau i gael ei argraffu hyd heddiw.

Ymunodd Ernie ag adran Dân yr RAF oedd ynghlwm wrth sgwadron 1340. Cadodd yr uned fach hon yn brysur trwy wasanaethau tân, achub ac adfer nid yn unig i bersonel ac offer yr RAF, ond i faes awyr Nairobi a'r ardal gyfagos. Roedd hyn yn golygu ymateb i argyfyngau gydag awyrennau sifil.

*“Fe wnaethon nhw greu hediad 1340, sef yr hediad enwog. Wnes I cyfarfod â'r Cadlywydd Asgell Syr David Jeffries a ddaeth o Lanarth. Roedd yn adnabyddus oherwydd iddo ddod yn un o beilotiaid personol y Cadfridog Wingate*. Mae 1340 yn deillio o rif yr injan 1340, sydd mewn awyrennau Harvard.”*

*Major General Orde Charles Wingate DSO 2 far. Sylfaenydd y 'Chindits' enwog Byddin Prydain a oedd yn gweithredu'n ddwfn yn jyngl Byrmanaidd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae Ernie yn amlwg yn parchu'r Syr Jeffries ac mae ganddo atgofion melys o'i gyfnod yn gwasanaethu o dan o. Byddai hefyd yn cael cyfarfod siawns ag ef yn ddiweddarach mewn bywyd, a eglurir ar ddiwedd y naratif hwn.




Y Cadlywydd Asgell Jeffries, Swyddog Rheoli 1340 ‘hediad prysuraf yr RAF’. Roedd yn hedfan cyfartaledd o 350 o ‘ymosodiadau’ y mis a threuliodd dros 7,000 awr yn gweithredu yn erbyn y Mau Mau. Mae Ernie yn falch iawn o fod wedi gwasanaethu gyda hediad 1340.

Mae Ernie yn cofio rhai atgofion:

“*Roedd yna un digwyddiad. Roedden ni’n arfer teithio’n ôl ac ymlaen 100 milltir i’r Aberdar’s* ar drenau bomiau. Roedden nhw’n lorïau enfawr gyda gyrwyr yr Awyrlu Brenhinol. Roedd gyrrwr y lorïau hyn yn arfer cario Gwn Sten. Bydd unrhyw un a aeth gyda nhw fel gwarchodwr yn cael reifflau .303.”*

*“Roeddwn i’n arfer cael lifft gyda’r un dyn hwn. Aethon ni i Nyiri, a oedd gant filltir i ffwrdd. Amser cinio oedd hi pan gyrhaeddon ni. Roedden ni (yn aros) mewn pebyll ar yr adran dân a dywedais wrtho (y gyrrwr) y gallem adael y gynnau ar fy ngwely yn y babell. Pan ddaethon ni’n ôl roedd y Rhingyll ar ddyletswydd wedi gwneud ei rowndiau a dod o hyd i’r gynnau hyn heb neb yn gofalu amdanynt. Roedd hynny’n drosedd. Es i o flaen y CO. Roeddwn i’n Gorporal, ac roedd yn golygu y gallech chi gael eich tynnu o’ch rheng. Aeth y gyrrwr yn ôl i RAF Eastleigh ac aeth o flaen ei Gomander Asgell. Cafodd e 14 diwrnod o ‘Jankers’ (dyletswyddau cosb). Darganfu’r Gomander Asgell Jeffries fy mod i o Aberystwyth, ac fo o Lanarth. Rhoddodd ddau ddiwrnod o 'Jankers' I mi yn mess y Swyddogion. Dywedodd y gallech chi wagio'r bwcedi (o'r toiledau) a defnyddio'ch lori dân i'w cludo i'r tir diffaith. Fe wnes i ddianc gyda jesd ddau ddiwrnod yn gwneud hynny, a oedd yn beth da.”*

*Mynyddoedd Aberdâr, tua chwe deg milltir i'r gogledd o Nairobi.

Mae Ernie yn egluro ychydig mwy am yr orsaf:

*“Roedd hediad 1340 yn cynnwys tua ugain o awyrennau Harvard. Roedd yr llu awyr Rhodesia yn eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant. Cafodd yr awyrennau penodol hyn eu haddasu gyda raciau bomiau a gynnau peiriant Browning yn yr adenydd. Bydd rhein yn cael eu defnyddio i ymosod ar y ddaear o'r uchod.”*




Mae gan Ernie gasgliad o ffotograffau o'i gyfnod gyda hedfaniad 1340. Dyma Harvard yn hedfan gyda bom wedi'i hongian oddi.

Chwaraeodd sgwadron 49 ei rhan yn y gwrthdaro hefyd ac roedd yr adran Dân yn dod ar draws bomwyr yr Avro Lincoln yn sail rheolaidd.

*“Os oedd unrhyw fomio trwm i’w wneud, y Lincolns oedd yn wneud o. Roedd y Lincoln yn fersiwn fodern o’r Lancaster.”*




Avro Lincoln o sgwadron 49 wedi'i leoli yn RAF Eastleigh 1953.

Roedd y sefyllfa yng Nghenia ar y pryd yn beryglus ac yn anwadal:

“Y llofruddiaethau! Cymerodd terfysgwyr y Mau Mau lw i ladd unrhyw berson gwyn. Roedd y gangiau yn lladd unrhyw ymsefydlwr neu ffermwr gwyn o Ewrop y gallent ddod o hyd iddo. Roedd Byddin (Prydeinig) wedi'i lleoli yn Nairobi ac i fyny'r wlad. Roedd ganddyn nhw’r heddlu Cenia, a oedd yn llu milwrol mewn gwirionedd. Roedden nhw'n delio â'r cyhoedd ac roedden ni'n delio â'r troseddau a'u heffeithiau. Roedden nhw (Y Mau Mau) yn casau ni.”

Byddai Ernie mynd ymlaen i ffeindio gall ei swydd yn yr ‘adran tân damweiniau’ yn RAF Eastleigh fod yn brysur iawn. Roedd yna lawer o amrywiaeth a chyfleoedd i deithio ar draws Cenia. Mwynhaodd y Diffoddwr Tân, ond roedd angen pob dwylo ar yr RAF i sicrhau bod yr awyrennau'n hedfan eu teithiau.

“*Roedden ni'n arfer cael wythnos i ffwrdd yn ystod yr haf ym Mombasa. Roedden ni'n mynd ar y trên o Nairobi i Mombasa. Roedd yr bomiau (yr RAF) yn ddod i harbwr Kilindini o Milford Haven. Roedden ni'n gweithredu fel gwarchodwyr ar y trenau, i ddod â'r bomiau yn ôl i fyny'r wlad i ble roedden nhw'n cael eu cadw yn Eastleigh.”*

Yn ôl yn RAF Eastleigh, roedd llawer o alwadau i ymateb i...

"*Roedden ni'n delio â phroblemau tân domestig a phethau fel hynny. Ni oedd y gwasanaeth tân ar gyfer yr RAF hefyd.*"

Ymatebodd Ernie i argyfyngau awyrennau, gan gynnwys nifer o ddamweiniau.

"*Roedd gennym ni lawer o awyrennau (tanau a damweiniau). Collon ni lawer o awyrennau. Damwainiodd dau Lincoln wrth esgyn, llwytho'n llawn. Collon ni tua deg neu ddeuddeg Harvard. Bydd ni'n colli llawer o rheini mewn damweiniau hedfan. Lle roedden ni'n hedfan o Nyiri roedd yn ddeng mil o droedfeddi ac amodau hedfan eithaf peryglus.*"

Gallai'r damweiniau awyrennau fod yn heriol i'r Diffoddwyr Tân RAF. Yn ystod ei gyfnod ar ddyletswydd, mynychodd Ernie nifer o safleoedd damweiniau, gan ymgymryd â chenadaethau achub ac adfer.



*"O ie, (yn mynychu safleoedd damweiniau). Mae gen i luniau o rai ohonyn nhw."*

*Mae Ernie yn eistedd wrth y drws ar awyren C47 Dakota sydd wedi damwain.*

Fel y soniodd Ernie, roedd peilots sgwadron 1340 a 49 yn hedfan eu hawyrennau mewn amodau heriol. Er hynny, nid yn unig yr peilots yr RAF a gafodd broblemau. Mynychodd adran Dân yr RAF ddamweiniau yn ymwneud ag awyrennau sifil hefyd. Mae Ernie yn egluro sut profiad oedd mynychu safle damwain:

*"Wel, mae llun o Lincoln. Mae saith o bobl mewn Lincoln. Fe wnaethon nhw cael ddamwain. Roedd rhaid i ni adfer yr holl gyrff a rhoi claddedigiaeth briodol iddyn nhw."*



LINCOLN HIT HILLSIDE, BURST INTO FLAMES

*Patrol found only wreckage*

THE patrol of the Royal Inniskilling Fusiliers which found the wreckage of the R.A.F. Lincoln bomber, that crashed high on Mount Kinangop on Monday night, returned to its base at Mioro, in the Fort Hall Reserve, yesterday afternoon. The plane was a complete wreck and had been burned out, the patrol reported. It appeared that it had dived into the side of a hill and burst into flames.

There were no survivors. The names of the five members of the crew are being withheld by the R.A.F. until all next-of-kin have been informed. They were killed instanteneously, it is thought.



DAKOTA CRASHES NEAR THE NGONG HILLS

*Seven dead: search of burnt wreckage*

MIDNIGHT DISASTER ON MALTA-DURBAN FLIGHT



Harvard crashes on moor

PATROL RESCUES INJURED PILOT

Cadwodd Ernie doriadau papur newydd o ddamweiniau awyrennau cafodd eu reportio yn yr newyddion yn Cenia.




Ernie yn sefyll wrth ymyl bomiwr Avro Lincoln arol damwain.

Wnaeth yr adran Dân yr RAF defnyddio dendrau wedi'u cynllunio'n arbennig, a oedd yn defnyddio gwrth-dân ewyn, yn hytrach na'r cymysgedd dŵr a CO2 roedd yn cael eu defnyddio gan dendrau sifil. Cafodd y cymysgedd ewyn ei daflu allan ar gyflymder uchel i ffurfio blanced dros yr awyren, a oedd yn amddifadu'r tân o ocsigen. Roedd y dull hwn yn cynnwys, yn atal ac yn diffodd y fflamau.



"Roedd gennym ni dendrau ewyn arbennig. "

Ernie Hughes, adran Dân RAF Eastleigh

Wnaeth Ernie cael profiad o hedfan mewn awyren Harvard, sydd wedi gadael argraff fawr arno...

"*Aethom i mewn a gollwng y bomiau ac wrth i chi dynnu allan, rydych chi ar gyflymder eithaf uchel. Dy' chi'n cael eich gwthio yn ôl i'ch sedd ac mae eich wyneb i gyd yn mynd i lawr! Doeddwn i erioed wedi profi hynny o'r blaen."*

Ymatebodd yr awyren i ddigwyddiadau a oedd yn digwydd ar y ddaear.

*"Byddai heddlu Cenia yn dod mewn i gysylltiad â'r gangiau ac yn cyswllt a'r adran hedfan heddlu Cenia. Wedyn, fel arfer roedden nhw'n galw'r RAF i mewn i wneud y bomio i nhw."*

Cyflwynodd tywydd Affrica heriau i'r RAF:

*"Roedd y Monswns yn gyffrous oherwydd bod gan faes awyr Eastleigh ffosydd wedi'u hadeiladu ar hyd yr holl ffyrdd (ar gyfer y dŵr llifogydd). Daeth y Monswn unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, ac roedd yn enfawr. Fel arfer, bydd yna llawer o leoedd lifogydd. Cawsom lawer o hwyl gyda hynny oherwydd roedden ni'n cysgu mewn pebyll am bedair blynedd!"*

Roedd milwyr Prydeinig yng Nghenia hefyd yn ymgymryd â dyletswyddau a oedd yn eu tynnu i ffwrdd o'u mannau gwaith arferol. Fel rhannodd Ernie yn flaenorol, roedd gangiau Mau Mau yn targedu pobl wyn Ewropeaidd. Roedd llawer o'r ffermydd yn eiddo i deuluoedd gwyn Ewropeaidd

ac roedd y ffermydd yn agored i ymosodiad gan y gangiau. Cymerodd Ernie ei dro yn amddiffyn y ffermwyr a'u teuluoedd.

*"Y peth arall oedd I'n arfer neud, yn eithaf pwysig, oedd gweithredu fel gwarchodwyr fferm. Roeddech chi'n mynd i'r arfdy a chael reiffl .303 a bandolier o fwledi. Yna roeddech chi'n mynd ar wyliau am ddim am cwpl o wythnosau. Roedd ffermwyr yn arfer dod i'ch casglu ac bydd chi'n gweithredu fel gwarchodwyr fferm."*



Ernie wedi'i arfogi â reiffl .303 yn gwarchod fferm yng Nghenia.

"Byddem yn marchogaeth ceffylau. Cawson ni amseroedd gwych ar y ffermydd, bwyd da ac fe wnaethon nhw trin ni'n dda."

Erbyn mis Rhagfyr 1956, roedd contract RAF Ernie yn dod i ben. Roedd e'n amser mynd nol i'r DU a neud penderfyniad am ei ddyfodol. Roedd Ernie wedi cwblhau dwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol gorfodol ac roedd y contract tair blynedd lofnododd i fod i ddod i ben ym mis Ionawr 1957.

"*Ym mis Rhagfyr 1956, hedfanais adref. Roedd Mam gartref, yn byw ar ei phen ei hun. Cefais fy rhyddhau ym mis Ionawr. Dechreuais mynd allan gyda Caryl bryd hynny. Wnes I cyfarfod â hi yn Neuadd y Brenin, Aberystwyth."*

Penderfynodd Ernie adael yr RAF a mynd nol i fyw gyda'i fam yn Aberystwyth.

**Stryd sifil**

Ar ôl gadael yr RAF, ymgartrefodd Ernie yn ôl adref yn Aberystwyth a thrafod ei gamau nesaf:

"*Roeddwn i'n Fecanig yng Ngarej Gorllewin Cymru yn ennill wyth punt yr wythnos. Aethon ni ar wyliau i Baris. Roedd tad Caryl yn poeni amdani. Derbyniodd Llysgenhadaeth Prydain Delegram i ddweud wrthym ni i ddod adref ar unwaith. Roedd e wrth Jeff, fy mrawd-yng-nghyfraith. Daethom adref ac roedd llythyr yn y tŷ yn dweud 'Rydych chi wedi cael eich dewis i ymuno â'r gwasanaeth Ambiwlans'. Roedd Cadfridog Evans (person lleol nodedig) wedi fy argymell. Dechreuais ym 1961."*

Aeth Ernie ymlaen i fwynhau gyrfa hir yn gwasanaethu cymuned gorllewin Cymru yn y Gwasanaeth Ambiwlans. Daeth yn adnabyddus ac yn uchel ei barch am ei waith. Roedd profiadau

Ernie yn yr RAF, ynwedig yn Cenia, yn help fo i ddelio â’r argyfyngau meddygol, damweiniau a sefyllfaoedd trawmatig y byddai’n wynebu yn y gwasanaeth Ambiwlans.

Ychydig flynyddoedd ar ôl i Ernie ymuno â'r gwasanaeth Ambiwlans, digwyddodd cyd-ddigwyddiad diddorol. Cafodd ei alw i fynychu damwain traffig ffordd ar yr A44 i'r de o Aberystwyth.

*“Rhedodd (y person) mewn i'r stondin laeth ym Mlaenplwyf. Yn y dyddiau hynny, roedden ni'n arfer gwisgo'r iwnifform glas. Roedd gen i fy rhubanau ymlaen (rhubanau medal gwasanaeth milwrol). Dywedodd y dyn hwn, gyda gwaed ar ei ben i gyd, ‘Nefi wen! Ble oeddech chi yng Nghenia?’ Roedd e’n adnabu’r ruban Cenia, ac cdnabuais ei lais. Yr Arweinydd Sgwadron Jeffries roedd e, fy hen ‘CO’. Fo ffurffiodd yr flight 1340!”*




Ernie ac un o'r Ambiwlans wnaeth o gyrru.

**Gwobrau**



1- Africa general service medal
2- Ambulance – Long and exemplary service award
3- Chief Ambulance Officers medal

(O’r chwith I’r dde)

Mae'r adroddiad naratif hwn o Wasanaeth Cenedlaethol, ynghyd â lluniau personal Ernie ar gael yng nghasgliad Gwasanaeth Cenedlaethol Ernie Hughes, yn Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru, gwefan Casgliad y Werin Cymru.

Mae pob hawl, gan gynnwys hawliau cyhoeddi i'r erthygl hon, yn perthyn i Ernie Hughes, neu ei fuddiolwr uniongyrchol pe bai'n marw.

Mae hawliau cyhoeddi i ddeunydd gafodd eu defnyddio i gwblhau'r ddogfen hon yn aros gyda'r cyhoeddwr gwreiddiol. Rydym yn diolchgar iawn i'r ffynonellau gwybodaeth canlynol a helpodd adeilaudau stori hon:

- en.wikipedia.org
- 49 Squadron Association
- National Army Museum
- Imperial war museum

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales
www.casgliadywerin.cymru
www.peoplescollection.wales

Dyfed
age Cymru